Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol (Gofal Di-breswyl)

**Canllaw Asesu Ariannol a Thâl a Aseswyd**

Bydd unrhyw un sy'n dewis cael asesiad sy'n nodi mai'r unig ffordd y gellir diwallu'u hanghenion yw drwy gynllun gofal a chymorth, yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ni waeth sut y caiff y cymorth hwnnw ei ddarparu, naill ai'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol neu drwy Daliadau Uniongyrchol, bydd angen cwblhau asesiad ariannol i benderfynu a ellir gofyn i unigolyn gyfrannu'n ariannol tuag at gost eu gofal a'u cymorth.

Mae'r asesiad ariannol yn destun 'prawf modd', felly mae gan bob Awdurdod Lleol dîm Cyllid sy'n cynnal yr asesiad. Byddant yn ystyried incwm, cynilon, eiddo ac unrhyw gyfalaf sydd gan yr unigolyn er mwyn cyfrifo a oes angen i'r unigolyn gyfrannu at gost eu gofal a'u cymorth, ac os felly, faint. Efallai na fydd rhai mathau o incwm, fel arian o fudd-daliadau anabledd penodol, yn cael eu cyfrif yn yr Asesiad Ariannol.

Mae'r Tîm Cyllid ar gael i roi cyngor ar sut i lenwi'r ffurflen, neu gallwch drafod hyn gyda'ch gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol neu ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu i'ch cefnogi. Unwaith y byddwch wedi dychwelyd y ffurflen i'r Tîm Cyllid, byddant yn cyfrifo eich "Tâl a aseswyd" neu "Gyfraniad". Oherwydd bod y cyfrifiad yn destun 'prawf modd', efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cyfraniad ariannol neu efallai ddim, fodd bynnag, y naill ffordd neu'r llall, byddant yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r canlyniad.



**Faint fydd yn rhaid i mi ei gyfrannu at fy Nhaliad Uniongyrchol?**

Y cyfraniad lleiaf y gallech orfod ei dalu tuag at gost eich gofal a'ch cymorth yw sero. Gall hyn gynyddu'n raddol (yn dibynnu ar eich incwm a'ch cynilion) i gyfraniad o hyd at £100 yr wythnos (ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-2024). Bydd angen talu'r Cyfraniad/Tâl a Aseswyd o ddyddiad cychwyn eich Taliad Uniongyrchol neu'r dyddiad y byddwch yn dechrau derbyn eich pecyn gofal a chymorth a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol.



Os ydych yn anghytuno â chost y Tâl a aseswyd, gallwch ofyn am adolygiad. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â Thîm Cyllid eich Awdurdod Lleol a byddant yn gallu edrych eto ar y ffigurau incwm/cynilion a ddefnyddiwyd wrth iddynt gyfrifo'r swm.



Mae'r cyfraniad ariannol/tâl a aseswyd yn cael ei adolygu'n flynyddol ac os oes unrhyw newidiadau bydd y Tîm Cyllid yn cysylltu â chi. Fel arall, os byddwch yn gwrthod asesiad ariannol, bydd disgwyl i chi dalu'r uchafswm tâl wythnosol.

Fel arfer, telir y tâl a aseswyd ar eich cyfer am 52 wythnos y flwyddyn. Mae hyn oherwydd y tybir bod angen bodloni eich anghenion gofal a chymorth bob wythnos. Fodd bynnag, mewn ambell i achos pan fydd angen bodloni eich anghenion gofal a chymorth o bryd i'w gilydd, cewch eich cynghori sut a phryd i wneud taliadau.

Os ydych wedi dewis derbyn taliad uniongyrchol, mae gan bob awdurdod lleol Dimau Cymorth Taliadau Uniongyrchol profiadol i gefnogi gydag ymholiadau neu wybodaeth. Maent yn darparu cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Mae gan bob Awdurdod Lleol Dimau Taliadau Uniongyrchol profiadol os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes angen gwybodaeth arnoch. Byddant yn rhoi cymaint o help a sicrwydd i chi ag sydd ei angen. Darperir cymorth ychwanegol hefyd gan y cwmnïau Yswiriant Atebolrwydd, cwmnïau cyflogres a gan ffynonellau allanol eraill.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
directpayments@blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
directpayadvisors@caerphilly.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy Tîm Taliadau Uniongyrchol**
mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
independentlivingteam@torfaen.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council
monmouthshire sir fynwy
TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI